# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Chwefror 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Cairns (Dwyrain Abertawe):** Pa ganllawiau sydd yn eu lle mewn perthynas â'r amseroedd ymateb a ddisgwylir o ran apeliadau ynghylch taliadau cefnogi fferm. (WAQ49433)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth yw cyfartaledd cost ymdrin ag ymholiadau sy'n ymwneud ag ailfandio'r dreth gyngor ac a wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad cyflawn o'r ffigur. (WAQ49431)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion ar gyfer uned ailsefydlu seiciatrig ar safle hen Gartref Gofal Pentref Rhymni. (WAQ49429)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A all y Gweinidog nodi sawl blwyddyn a gollwyd oherwydd marwolaethau o ganlyniad i epilepsi a *status epilepticus* am y blynyddoedd er Archwiliad Cenedlaethol 2002. (WAQ49430)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o ardaloedd Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, a pha rai, sy'n darparu gwasanaeth profedigaeth ar gyfer teuluoedd sydd wedi dioddef colli plentyn, neu sy'n wynebu colli plentyn yn y dyfodol agos, ac a wnaiff roi manylion ynghylch sut y mae'n golygu sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ledled Cymru. (WAQ49434)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw gynlluniau sydd ganddo i integreiddio Canolfan Iechyd Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yng Nghymru. (WAQ49435)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Yn dilyn ei ateb i WAQ48868; a wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch a yw nifer y marwolaethau a roddwyd yn cynnwys marwolaethau o ganlyniad i *status epilepticus*. (WAQ49436)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer gweithredu Rheoliadau yng Nghymru sy'n cyfateb i'r Mobile Homes (Written Statement)(Amendment) (England) Regulations 2006 a ddaeth i rym yn Lloegr fis Hydref diwethaf. (WAQ49432)